

# DRYCH

PECYN ADNODDAU CREADIGOL



FRÂN WEN

# CAST A THÎM ARTISTIG

## Actorion

### Sgript

### Cyfarwyddwr

### Artist cyswllt

### Cynllunydd set a gwisgoedd

### Cynllunydd goleuo

### Cyfansoddwr

### Ffilm

### Cydlynnydd ymladd

### Rheolwr llwyfan

### Technegydd sain

### Technegydd goleuo

### Rheolwr llwyfan cynorthwyol

Bryn Fôn & Gwenno Hodgkins

Llŷr Titus

Ffion Haf

Aled Jones Williams

Gwyn Eiddior

Elanor Higgins

Osian Gwynedd

Mathew Owen

Kaitlin Howard

Ceridwen Price

Morgan Huw Evans

Meilir Aled Evans

Simon Thomas

## Dylunio

### Ffotograffiaeth

Droplet

Geraint Thomas

Kristina Banholzer

## FRÂN WEN

### Cyfarwyddwr Artistig

### Cyfarwyddwr Cyswllt

### Rheolwr Gweithredu

### Hyrwyddwr Creadigol

### Swyddog Cyfranogi

### Swyddog Gweinyddol

Iola Ynry

Ffion Haf

Nia Jones

Carl Russell Owen

Gwennan Mair Jones

Olwen Mai Williams

*Mae Cwmni'r Frân Wen yn gwmni cyfyngedig dan warant (3079992) ac yn elusen gofrestredig (1065046).*

Cwmni'r Frân Wen, Yr Hen Ysgol Gynradd, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5HS  
Ffôn: (01248) 715048 / [www.franwen.com](http://www.franwen.com) / [post@franwen.com](mailto:post@franwen.com)



# CRYNODEB O'R DDRAMAMA

---

## **Drama am bobl ydi Drych.**

Mae hi'n ddrama am bethau hefyd ond pethau pobl ydyn nhw un ac oll. Dyn a Dynas yw'r cymeriadau ac fe all y ddau fod yn sawl dyn a sawl dynes a cheir fflachiadau o sefyllfaoedd o ddydd i ddydd a allai fod yn berthnasol i nifer fawr o bobl.

Mae'r ddau mewn lle digon annelwig sydd ar unwaith yn gyfarwydd ond heb fod yn le penodol chwaith. Mae'r elfen annelwig honno yn rhan gyffredinol i'r ddrama. Tydi'r Dyn na'r Ddynas, fel y gynulleidfa, fawr callach pam eu bod nhw yn lle maen nhw ond yno mae'r ddau. Mae gan y Dyn ei bapur ac mae gan y Ddynas rhyw frith gof o sut mae trefn pethau i fod ac felly maen nhw'n pydru'n mlaen.

Aiff y ddau ati i geisio gwella'r lle o'u cwmpas nhw wrth glirio ond wrth dyrchu drwy'r sbwriel daw pethau i'r golwg ac yn debyg iawn wrth i'r ddau siarad mae pethau yn codi hefyd. Er bod y ddau yn ceisio peidio trafod rhai pethau, fel y tywyllwch sydd yn eu hamgylchynu nhw, weithiau mae'n rhaid iddyn nhw wynebu'r rheiny hefyd. Mae'r cwt yn ennyn chwilfrydedd y Ddynas er bod gan y Dyn ei ofn. Mae'n ddigon posib mai dim ond cwt ydi o ond fod eu hofn nhw yn ei droi o, fel wardrob mewn ystafell plentyn, yn rhywbeth arall.

Bob hyn a hyn daw atgofion a fflachiadau o orffennol y ddau ond ddaw'r un darlun cyflawn i'r fei. Wrth i bethau fynd yn eu blaenau maen nhw'n datgelu mymryn mwy, yn rhannu hanesion ac ofnau ond mae'r clirio, y siarad a'r jôcs yn bwysicach am fod hynny'n cynnig rhyw ddihangfa. Mae'r ddau yn ceisio dihangfa arall hefyd, rhai mwy parhaol, ond mae'r rwtin yn drech na hynny. Does yna ddim dihangfa- mae'r rhaff yn llacio, mae'r drws ynghau.

Wedi i'r ddau hel y sbwriel does yna ddim modd cadw'n brysur. Mae'r tywyllwch sydd wedi bod yn bygwth y ddau ,wrth yr ymylon ,yn dod yn ôl. Daw'r ddau at ei gilydd i wynebu hwnnw gyda dim ond tortsh i'w cadw nhw rhagddo fo.



## ***Drych is a play about people.***

*It's also a play about things, but ultimately people's things. The characters are a Man and a Woman and they could be numerous men and women and we get several flashes of everyday situations that may be relevant to a large number of people.*

*They are in a remote and ambiguous place which is familiar to them, but then again it's not a specific place. This remoteness plays a prominent part throughout the play. Like the audience, the Man and Woman aren't sure why they are in this location, but there they are. The Man has his paper, and the Woman has some vague recollection of the order of things, and this is how they plod along.*

*Both are intent on improving their surroundings by clearing but by digging through the rubbish and through continued discussions things come to light. Even though they both try to avoid talking about certain things, such as the darkness surrounding them, but sometimes they have to face these things. The shed intrigues the Woman but it raises fears in the Man. It is quite possible that it's only a shed but their fear, similar to a wardrobe in a child's room, turns it into something else.*

*Every so often we get flashbacks from their past but the same unifying image comes to the fore. As things move on they reveal a little bit more, they share their tales and fears but the clearing, the talking and the jokes are more important to them because it offers some kind of escape. Both of them try to find a more permanent escape, but life's routine doesn't allow them. There is no escape - the rope loosens, the door closes.*

*Once they finish clearing up, there is nothing to keep them busy. The ever-threatening darkness closes in. They come together to face it head on, but with only a torch to keep it at bay.*

# EGWYDDORION DRYCH

---

Drama absŵrd sy'n cwestiynnu hanfod bywyd a hynny mewn cyd-destun naturiol Gymreig. Ond mae yma ffresni braf yn Drych gyda llond bol o chwerthin yng nghanol tywyllwch dudew.

## EGWYDDORION DRYCH

- Ennyn diddordeb cynulleidfa mewn dramodydd ifanc trwy gast adnabyddus a phrofiadol
- Cast sy'n adnabyddus am waith comedi gan obeithio denu cynulleidfa na fyddai'n arferol yn mynychu cynhyrchiad absŵrd ei natur
- Cynhyrchiad theatrig beiddgar o ran llwyfaniad ac arddull perfformiad
- Amlygu hiwmor naturiol y cymeriadau er mwyn i'r gynulleidfa gydymdeimlo â nhw
- Trosglwyddo delweddau cyfoethog y sgript mewn ffurfiau theatrig
- Defnydd o ddelweddau sy'n adlweyrchu'r stori
- Hyrwyddo cynllun Sgript i Lwyfan i ddenu egin ddramodwyr mwyaf talentog Cymru
- Denu cynulleidfa newydd ac ifanc i'r theatr

# #1 GWEITHDY

## ADDASU STORI AR GYFER Y LLWYFAN

### DEWISIWCH STORI O'CH DEWIS CHI.

Gall y stori fod o lyfr, chwedl, papur newydd neu o unrhyw ffynhonnell posibl e.e. hysbyseb mewn papur newydd 'Baby shoes for sale. Never worn.'

Sut mae'r ddwy frawddeg yma'n tanio'r dychymyg ac yn awgrymu stori lawnach?

- Ewch trwy'r stori gan nodi unrhyw ffeithiau ac unrhyw awgrymiadau sydd i'w gweld.
- Rhestrwch y prif gymeriadau a'r cymeriadau ymylol sydd ddim o angenrheidrwydd yn ymddangos ond sy'n dylanwadu ar y stori.
- Beth sy'n ddifyr am y cymeriadau?
- Sut mae nodweddion unigryw y cymeriadau yn cael eu portreadu trwy wisg, symudiad, osgo a'u cysylltiad a chymeriadau eraill o fewn y man perfformio?
- Gosodwch gyfnod i'r stori ac amser o'r dydd i'r golygfeydd.
- Beth yw digwyddiad allweddol y stori pan mae pethau yn newid a does dim troi'n ôl?
- Sut ydych chi am gyfleu gwybodaeth neu awyrgylch heb eiriau ac yn theatraidd?
- Pa ddelwedd theatraidd fydd yn aros yng nghof y gynulleidfa?
- Sut mae crynhoi'r stori mewn brawddeg? Ydi hi'n stori sy'n codi chwilfrydedd? Ydi hi'n stori werth ei dweud?
- Pa wrthrychau neu brops sy'n allweddol i'r stori a sy'n arwyddocaol ar lefel symbolaidd?
- Sut mae modd aildrefnu golygfeydd yn ôl safbwyntiau gwahanol gymeriadau?
- Pa ddelweddau sy'n cael eu hailadrodd?
- Oes yna ddigon o gyfle i'r gynulleidfa ddefnyddio eu dychymyg neu ydi bob dim yn cael ei gyflwyno ar blât?
- Ydi'r stori yn gyrru ias lawr asgwrn cefn y gynulleidfa? Os ddim – newidiwch y stori! Pa stori sydd wedi aros yn eich cof ers eich plentydod?
- Ydi'r stori yn rhoi golwg neu wedd newydd ar fywyd?
- Beth sy'n unigryw am y stori neu'r ffordd mae hi'n cael ei dweud?
- Defnyddiwch eich dychymyg a mentrwch lawer gwaith!

# YR AWDUR LLŶR TITUS



**Oed:** 22

**Sefyllfa addysg/gwaith:** Myfyriwr M. A.

## **Pryd nes ti ddechrau 'sgwennu?**

Roeddwn i'n sgwennu ar gyfer eisteddfodau lleol yn yr ysgol gynradd fel roedd pawb arall hefyd ond dwi wedi dal ati am fy mod i'n mwynhau gwneud. Fedrai'm dweud o le ddaeth y diddordeb dwi wedi lecio gwneud erioed ond mi oeddwn i'n lwcus iawn i gael anogaeth yn yr ysgol gynradd, ysgol uwchradd, coleg addysg uwch a'r brifysgol.

## **Sut brofiad oedd gweithio gyda Aled Jones Williams?**

Difyr eithriadol, roedd o'n brofiad buddiol nid yn unig o ran gallu trafod syniadau hefo rhywun profiadol ond hefyd i gael amser ac anogaeth i fynd ati i 'sgwennu.

## **O ble ddaeth yr ysbrydoliaeth am Drych?**

Roedd o'n od iawn, y ddeialog ddaeth gyntaf nid y syniad, dim ond ar ôl mynd ati hefo'r ddeialog ddaeth y syniadau ehangach ac unrhyw themâu, tyfu o'r sgwrsio wnaeth pob dim. Ches i ddim fflach o ysbrydoliaeth, tyfu dros amser wnaeth o wrth weithio felly mae hi'n aml iawn pan dwi wrthi beth bynnag.

## **Disgrifia'r her o sgwennu ar gyfer llwyfan yn hytrach na llyfr?**

Mae o fel ysgrifennu tamaid deialog hir ofnadwy mewn difri ond bod rhywun yn gorfod dibynnu ar bethau heblaw naratif i greu delweddau. Mae cyfarwyddiadau llwyfan yn help wrth reswm ond dwi'n rhyw deimlo fod yn rhaid gwasgu mwy o'r siarad nac y byddai rhywun mewn nofel ac wrth gwrs mae'n rhaid dibynnu llai ar ddychymyg y gynulleidfa am eu bod nhw'n ei weld o yn hytrach na'i ddarllen o.

## **Disgrifia Drych mewn un Tweet (140 o lythrennau)?**

Dau o bobol mewn lle yn siarad, ac fel mae hi'n aml iawn mae petha'n codi i'r wyneb wrth wneud hynny - petha' braf a phetha' digon annifyr.

## **Beth yw dy obeithion am y dyfodol?**

Dal ati sgwennu bob dim fedrai, dwi'n hoff iawn o 'sgwennu nofelau ac wedi cael blas garw ar weithio ar Drych, mae gen i sawl peth y liciwn i weithio arno fo. Cael amser ydi'r drwg.

# #2 GWEITHDY GWEITHDY AR GYMERIADU

Wrth ddatblygu cymeriadau yn ystod cyfnod ymarfer mae'n holl bwysig ystyried y cwestiynau isod. Defnyddiwch y cwestiynau wrth baratoi cymeriad eich hun ar gyfer perfformiad.

- Beth ydi uchelgais y cymeriad?
- Beth sy'n ei r/rhwystro rhag gwireddu'r uchelgais?
- Beth ydi dyhead gwirioneddol pwysicaf y cymeriad er nad yw'n gwybod hynny ei hun?
- Pwy ydi'r dylanwad mwyaf ar y cymeriad?
- Beth yw atgof mwyaf byw y cymeriad o'i b/phlentyndod?
- Beth yw ofn mwyaf y cymeriad?
- Sut fyddai'r cymeriad yn disgrifio'i hun i ddieithriaid?
- Sut fyddai ei rieni yn ei d/ddisgrifio?
- Pwy neu beth sy'n gwneud i'r cymeriad deimlo yn anghyfforddus?
- Pa ddigwyddiad sydd wedi codi cywilydd mwyaf ar y cymeriad?
- Pwy fyddai'r cymeriad yn fodlon ei ladd er mwyn ei g/warchod?
- Pryd oedd y cymeriad hapusaf ?
- Beth fyddai hoff bryd bwyd y cymeriad?
- Sut mae'r cymeriad yn cerdded i mewn i ystafell llawn dieithriaid?
- Sut mae'r cymeriad yn bwyta?
- Faint mae'r cymeriad yn ei gysgu bob nos?
- Sut lais canu sydd gan y cymeriad?
- Beth yw'r gwrthrych mae'r cymeriad yn ei drysori yn fwy na dim?
- Pwy fyddai'r cymeriad eisiau yn gwmni ar ei wely angau?
- Beth sy'n gwneud i'r cymeriad chwerthin?
- Pa egwyddorion sy'n bwysig i'r cymeriad?

Sut mae dangos yr atebion hyn i gyd mewn perfformiad heb i'r cymeriad yngan yr un gair?

# Y CYFARWYDDWR FFION HAF



Bydd Ffion yn cyfarwyddo sioe nesaf Frân Wen 'Saer y Sêr' ac yn gyfarwyddwr cyswllt ar sioe Theatr Genedlaethol Cymru, 'Chwalfa' yn Pontio yn y flwyddyn newydd. Yn ogystal â darlithio theatr a pherfformio rhan amser ym Mhrifysgol Bangor yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, Ffion yw Cyfarwyddwr Cyswllt Frân Wen.

## GWAITH CYFARWYDDO DIWEDDARAF

*Dim Diolch (CFW), Chwarel (CFW/Theatr Genedlaethol Cymru/Pontio) Rhwng Dau Fyd (Theatr Genedlaethol Cymru, Sherman Cymru, Living Pictures) Blodeuwedd (Theatr Genedlaethol Cymru (cyfarwyddwr cynorthwydd)) Bocsys, Gwyn dy Fyd, Sbri, Tasa ti'n Sefyll yn Fama (CFW)*

## Beth wnaeth dy ddenu at Drych?

Llais newydd, drama newydd. Mae hi'n bwysig parhau i ddatblygu theatr yn yr iaith Gymraeg a rhoi llwyfan i sgwennwyr ifanc. Roedd Drych yn gyfle i archwilio gyda drama oedd yn cynnig haenau o ystyr ac i arbrofi'n theatraidd.

## Beth oedd sialens mwya'r sgript?

Gan fod y ddrama mor haenog, mae yna lawer iawn o amser wedi gorfod mynd i ddadansoddi'r testun. Wrth gwrs mae'r ddrama yn gweithio ar lefel absŵrd a swreal ond mai hi hefyd yn bwysig darganfod amcanion y cymeriadau i greu perfformiad cyfoethog.

## Pa fath o berson sydd am fwynhau'r ddrama?

O'r cychwyn cyntaf rydym wedi bwriadu i'r ddrama apelio at gynulleidfa eang. Nid yn unig i fwynhau, ond i uniaethu â rhwystredigaeth a phrydferthwch bywyd.

Yn naturiol, mae yna arweiniad ynglŷn ag addasrwydd oed i'r cynhyrchiad, ond dylai'r gynulleidfa brofi myrdd o emosiynau.

## Os fasa rhywun yn rhoi ffon hud i ti, pa sioe fasa ti'n ei wneud nesaf?

Wel am gwestiwn anodd! Parhau i weithio dweud y gwir. Byddai'n grêt cael cyd-weithio â chwmnïau dramor yn y dyfodol, ar draws Ewrop a Japan am ryw reswm. Cyd-weithio ag artistiaid gwych i barhau i fy ysbyrdoli.

# #3 GWEITHDY YSGRIFENNU ADOLYGIAD

Mae eich barn chi'n bwysig – peidiwch â bod ofn dehongli drosdoch chi eich hun – does yna ddim yn anghywir!

Cyflwynwch ddadl dros eich barn!

Ystyriwch pob un synnwyr wrth ymateb gan gynnwys y gynulleidfa o'ch cwmpas!

Trafodwch y cynhyrchiad gyda eraill ond peidiwch â cholli gafael ar eich adwaith personol chi!

- Disgrifiad o'r cynhyrchiad a'r llwyfaniad
- Mynegi barn ynglŷn a llwyddiannau a methiannau y cynhyrchiad
- Angen bod yn ofalus wrth feirniadu. Peidiwch ag ysgrifennu dim na fydddech chi'n fodlon ei ddweud wyneb yn wyneb hefo aelod o'r cast neu'r tim creadigol.
- Dylid defnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio'r cynhyrchiad yn meddwl y darllenwr
- Ystyriwch ffyrdd o ddisgrifio cryfderau'r perfformiad
- Os oes ganddoch chi feirniadaeth ceisiwch egluro pam nad oedd y llwyfannu yn gweithio
- Pa ddelweddau cofiadwy a thrawiadol sydd yn aros yn y cof?
- Cofiwch y gall actor fod yn dilyn cyfarwyddiadau penodol y cyfarwyddwr
- Efallai mai gweledigaeth y cyfarwyddwr sy'n ddiffygiol yn hytrach na'r cynhyrchiad

## Strwythur adolygiad

1. Cyflwyniad
2. Amlinelliad o'r plot/ cefndir/ trywydd y cynhyrchiad
3. Dadansoddiad o beth oedd yn drawiadol neu ddim yn effeithiol ynglŷn â'r perfformiad. Ystyriwch benderfyniadau a dehongli'r cyfarwyddwr. Pa ddewisiadau sydd wedi eu gwneud ynglŷn â'r llwyfannu a'r actio? Edrychwch ar berfformiadau'r actorion: eu symud corfforol; dehongliad o'r cymeriad. Beth yw arddull y perfformiad? e.e. naturiolaid, symbolaidd. Cofiwch am y defnydd o oleuo, sain, gwaith digidol a chynllun y set ac ystyriwch os ydynt yn cefnogi neu'n tansilio'r perfformiad.
4. Gorffennwch trwy grynhoi eich barn am y cynhyrchiad.

## Ystyriwch Elfennau symbolaidd

- Defnydd o'r sied, y bath, y raff - oes elfennau symbolaidd i rhain?

# CYFANSODDI OSIAN GWYNEDD

Mae Osian Gwynedd yn gerddor, cynhyrhydd a pherfformiwr llwyddiannus.

Mae wedi gweithio gyda Chwmni'r Frân Wen ar nifer o gynyrchiadau gan gynnwys 'Hawl', 'Fala Surion' a 'Dim Diolch' yn ddiweddar. Mae'n un o gyd-ddyfeiswyr cynhyrchiad nesaf y cwmni 'Saer y Sêr' fydd yn teithio yn ystod Tachwedd a Rhagfyr eleni.

Mae wedi cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer nifer o gynyrchiadau theatr eraill yn ogystal gan gynnwys 'Dros y Top' i Theatr Bara Caws a 'Sgint' i Theatr Genedlaethol Cymru. Osian sy'n chwarae'r piano ar yr albwm a'r ffilm 'American Interior' gan Gruff Rhys a'r ffilm 'Set Fire to the Stars'.

Cyfansoddodd draciau sain ar gyfer rhaglenni teledu 'O'r Galon' i Antena, rhaglen am y bardd Dewi Emrys i Cwmni Da a 'Clwb' i Rondo Media a'r ffilm 'Reit Tu Ôl i Ti' ar gyfer S4C.

## GOLEUO ELANOR HIGGINS

Mae Elanor yn gynllunydd goleuo llawrydd yn gweithio ar gynyrchiadau theatr, opera,awns, sioeau cerdd a rhai ar leoliadau penodol.

Mae cynlluniau diweddar yn cynnwys cynyrchiadau arobryn Scamp 'Private Peaceful', 'Tiddlers and Other Terrific Tales', 'Stick Man, live on stage', 'The Scare Crows Wedding'.

'The Caucasian Chalk Circle' a gyfarwyddwyd gan Bruce Guthrie ar gyfer Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru, 'Little Malcolm and his struggle against the Eunuchs' i Soggy Arts yn Southwark Playhouse. Cynhyrchiad lleoliad penodol gyda chast benywaidd 'Richard The Third' i Omdaza a CMC, 'Lotty's War' a gyfarwyddwyd gan Bruce Guthrie, 'Young Writers Festival' i Pentabus, 'The Magic Toyshop' i Invisible Ink a Theatr Iolo.

Ar gyfer Theatr Genedlaethol Cymru 'Y Negesydd', 'Pridd' (enwebwyd ar gyfer y cynllun goleuo gorau yng Ngwobrau Theatr yng Nghymru 2014), 'Rhwng Dau Fyd', 'Dyled Eileen', 'Sgint', 'Dau Un Un Dim', 'Yn y Trên' a 'Y Gofalwr'. 'Halt! Who goes there', 'We Need Bees' a 'The Ghost of Morfa Colliery' i Theatr na n'Ôg. 'The Birds' i Unusual Theatr School. 'Flower from Tunisia' i Theatr Torch, 'Yr Argae', 'Maes Terfyn' i Sherman Cymru, 'Black Crows' ar gyfer Clean Break.


Gweithiodd Elanor yn agos gyda Sgript Cymru gan gynllunio 14 sioe iddynt gan gynnwys 'Orange', 'Acqua Nero', 'Indian Country', 'Past Away', 'Art and Guff' ac 'Amdani'. Cyn mentro'n llawrydd roedd Elanor yn gweithio'n llawn amser fel technegydd goleuo i Opera Cenedlaethol Cymru, y Royal National Theatre a Leicester Haymarket.

Graddiodd o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru lle mae hi erbyn hyn yn gweithio fel darlithydd gwadd.



# YR ACTORION

## BRYN FÔN & GWENNO HODGKINS



### Sawl gwaith ydych chi wedi gweithio gyda'ch gilydd?

**Bryn:** Gormod!!

**Gwenno:** Llawer o weithiau - anodd cofio ond yn sicr un o ffilmiau S4C cynnar Siôn Humphreys neu sioe glybiau Bara Caws. Mae'n anodd cofio'r un gyntaf!

**B:** Roedd y ddau ohonom yng nghynhyrchiad cyntaf Theatr Genedlaethol Cymru, Yn Debyg lawn i Ti a Fi, yn ôl yn 2004.

### Beth wnaeth eich denu chi at y ddrama hon?

**G:** Ar lefel bersonol, mae'n ddaioni i mi fel actores - sy'n cael fy nghastio mewn cymaint o bethau doniol - cael gwneud rhywbeth difrifol. Mae o'n apelio am ei fod yn hollol wahanol. A dwi'n ffan mawr o 'sgwennu Llŷr hefyd wrth gwrs.

**B:** Roedd y ddau ohonom ni yn rhan o ddarlleniadau cyhoeddus Sgript i Lwyfan (cynllun dramodwyr ifanc Frân Wen) ac roedd potensial gwaith Llŷr wedi dod i'r amlwg. Jest drwy edrych ar ymateb y gynulleidfa roedd yn amlwg fod rhywbeth arbennig yn y sgript. Y ddau ohonom yn eistedd ar stolion, hollol syml, gyda'n pennau mewn sgript, felly os ti'n gallu cael ymateb fel hyn yn fannu sut fydd o ar lwyfan llawn.

**G:** Roedd yr ymateb yn wych dweud y gwir.

### Ydych chi'n meddwl fod yna ddigon o gyfleoedd i bobl ifanc fel Llŷr?

**B:** Dwi'n meddwl bod pobl ifanc yn lwcus iawn dyddiau yma, mae mwy o gyfleoedd yna heddiw na sydd wedi bod o'r blaen. Heblaw am eisteddfodau, doedd ddim math o strwythur i gael cyflwyno sgript yn yr amser a fu.

**B:** Roedd y criw yma wedi cael eu mentora gan Aled Jones Williams ac roedd hyn yn dipyn o help. Dim hon oedd yr unig sgript o ansawdd felly mae pethau yn edrych yn addawol iawn i ddyfodol theatr yng Nghymru.

### Beth yw perthynas eich cymeriadau yn Drych?

**G:** 'Da ni ddim yn sicr beth yw'r berthynas rhwng y dyn a'r ddynes i fod yn onest.

**B:** Bron fasa chdi'n gallu dweud bod y dyn a'r ddynes yn cynrychioli'r ddwy rywogaeth ar wahân, bod ni'n cynrychioli dynoliaeth. Mae mor fawr â hynny mewn ffordd.

**G:** Mae'n anodd iawn rhoi o lawr i un teip.

**B:** Mae na 'routine' mae'r cymeriadau yn mynd drwyddo, maen nhw'n ymwybodol fod 'na rhai pethau rhaid chdi wneud mewn bywyd, rhyw fath o drefn annelwig i'r holl beth - ond mi alli di gymryd o hefyd 'na dyna ydi bywyd. 'Da ni gyd yn gwneud yr un camgymeriadau.

Mae'r cymeriadau i weld fel rhyw fath o 'lowlife' - gwaelod yr ysgol go iawn - ond y ffordd maent yn siarad gyda'i gilydd mae'n amlwg fod yna fyw yno rhyw dro.

### Pa agwedd o'r daith sy'n apelio atoch chi fwyaf?

**B:** Ymateb y dorf yn sicr. Be' wnân nhw ohoni hi? Mae hi'n ddrama heriol.

**G:** Dwi eisiau annog pobl i fod yn barod i wrando.



# CYNLLUNIO GWYN EIDDIOR

Yn wreiddiol o Eifonydd, ar ôl symud i Gaerdydd graddiodd Gwyn o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gyda gradd mewn Cynllunio Theatr. Ers hynny bu'n gweithio fel cynllunydd set a gwisgoedd llawrydd. Mae wedi cynllunio nifer o gynhyrchiadau theatr gan gynnwys sawl un i Frân Wen yn ogystal â Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Bara Caws, Sherman Cymru, Theatr na n'Óg a Chwmni Theatr yr Urdd.

Gwyn sydd wedi cynllunio setiau stiwdio y rhaglenni teledu Ochr 1 a Ddoe am Ddeg ac mae'n ymddangos fel cynllunydd yng nghyfresi Hip Neu Sgip? a Stwnsh ar y Ffordd ar S4C.

Yn ystod yr haf bu Gwyn yn cynllunio meysydd ac addurniadau i amryw o wyliau o gwmpas y wlad, ef oedd cynllunydd maes yr Eisteddfod Genedlaethol a Maes B yn ogystal â llwyfanau cerddoriaeth Gorwelion.

Yn ei amser rhydd mae Gwyn yn cyd-drefnu digwyddiadau Nyth, yn rwdlan ar Radio Cymru yn achlysurol ac yn reidio'i feic pan ddaw'r cyfle.



## CYNLLUNIO DRYCH

“ Disgrifir y drych yn sgrïpt wreiddiol Llŷr fel un mawr ar ganol y llwyfan ond bellach mae wedi chwalu'n ddarnau minig llai ac yn amgylchynu'r Dyn a'r Ddynas.


Mae'r drychau yn achlysurol adlewyrchu haenau a chymeriadau amrywiol y ddau yn ogystal â ffurfiau ambell aelod o'r gynulleidfa all weld eu hunain ar y llwyfan.

Yr hyn amlygodd ei hun wrth drafod y ddrama, y cymeriadau a'u gofod gyda Llŷr oedd mai blerwch a welai yn eu byd; y 'Tir Wast' a gyfeiriai ato, lle cyn neu randir oedd wedi anghofio, lle i'r rhain sydd ar gyrion cymdeithas. Rydw i wedi ceisio cyfleu gofod sy'n eitha amwys ac amhenodol gan y gallai y ddau gymeriad mewn gwirionedd fod yn damaid bach o unrhywun yn unrhywle.

Mae gan Y Cwt bresenoldeb cryf uwchlaw y gofod a'i drigolion ond 'dwi ddim yn siwr pam na sut. ”

# SGRIPT I LLWYFAN

CYNLLUN 'SGWENNU NEWYDD FRÂN WEN  
SY'N CYFLWYNO DRAMODWYR IFANC I'R  
GREFFT O 'SGWENNU. CYFLE I  
FENTORA DROS GYFNOD O AMSER,  
I FINIOGI SGILIAU A DATBLYGU  
SYNIADAU O SGRIPT I GYNHYRCHIAD  
LLWYFAN.



WWW.FRANWEN.COM

ARIENNIR Y CYNLLYN GAN GYNGOR GWYNEDD,  
CYNGOR SIR YNYS MńN, CYNGOR BURDEISTREF SROL CONWY,  
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU A'R LOTERÍ GENEDLAETHOL.

MEWN CYDWEITHREDIAD Â



Theatr  
Genedlaethol  
Cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



CYNGOR  
GWYNEDD  
COUNCIL



CYNGOR  
EIRUDDYR  
CONWY  
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR SIR  
YNNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

[www.franwen.com](http://www.franwen.com)